



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llannon

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Llannon yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'u chymuned leol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn y profiadau dysgu amrywiol maent yn eu derbyn. Mae disgyblion yn garedig ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch teuluol. Mae staff yn gwrando'n ofalus ar ddisgyblion os oes ganddynt bryderon gan feithrin ymdeimlad o barch a chwarteisi at eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cyd-chwarae'n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u manau cychwyn. Er hyn, nid yw'r athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu effeithiol ac yn darparu gweithgareddau diddorol i ymgysylltu â diddordeb disgyblion. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd tu allan. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro yn deall cryfderau'r ysgol ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu. Mae wedi cydweithio â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r blaenoriaethau gwella ac ymateb i'w hargymhellion yn amserol.

Argymhellion

- A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd hyd eithaf eu gallu
- A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol
- A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Llannon
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ceredigion
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	43
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	33
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	26.4%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	45.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	08/04/2024
Dyddiad dechrau'r arolygiad	24/06/2024
Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2024.	

ⓘ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.